**Derbynnydd Penwythnos**
**Erw Groes, Treffynnon**
**18.5 awr yr wythnos**
**Parhaol**
**£21,682.00 y flwyddyn, pro rata.**

Yma yn ClwydAlyn, rydym am recriwtio Derbynnydd Penwythnos i ymuno â'n tîm byw â chefnogaeth yn Erw Groes yn Nhreffynnon.  Bydd deiliad y swydd yn gweithio ar sail rota penwythnos fydd yn cynnwys gweithio un noson effro bob pythefnos.

- **A ydych chi yn chwilio am gydbwysedd bywyd gwaith rhagorol?**
- **A fyddech yn hoffi 25 diwrnod o wyliau cyflogedig (sy'n cynyddu i 30 diwrnod), gyda chyfle i brynu/gwerthu mwy o wyliau blynyddol?**
- **Derbyn cyfraniadau pensiwn cyflogwr hyd at 8%.**
- **Ymuno â chynllun beicio i'r gwaith.**
- **Derbyn talebau gofal llygaid.**
- **Pecyn mamolaeth rhagorol a llawer o fuddion cwmni eraill.**

## Os felly, fe allem ni fod yn berffaith i'n gilydd….

## Sut yr ydym yn gweithio

Mae ein pobl yn allweddol i'n llwyddiant. Mae ein hamcan creiddiol yn canolbwyntio ar daclo tlodi ar draws Gogledd Cymru lle'r ydym yn darparu ein cartrefi a'n gwasanaethau.

Mae popeth a wnawn yn seiliedig ar ein gwerthoedd o **Ymddiriedaeth, Caredigrwydd a Gobaith**. Rydym yn chwilio am rywun sy'n ymgorffori'r gwerthoedd yma'n llwyr!

## Amdanom Ni

Mae Tai ClwydAlyn yn ddarparwr tai a gwasanaethau cefnogi cysylltiedig cyfeillgar i deuluoedd sydd wedi hen sefydlu ac sy'n cael ei barchu ar draws Gogledd Cymru lle mae pobl yn ganolog i bopeth a wnawn. Rydym yn sefydliad gweithio ystwyth ac yn aelod o'r Grŵp Teuluoedd sy'n Gweithio, gan fyw ac anadlu ein gwerthoedd o ymddiriedaeth, gobaith a charedigrwydd.

Rydym ar daith gyffrous a fydd yn ein gweld yn gweithredu cynllun busnes newydd yn canolbwyntio ar daclo tlodi a darparu gwasanaethau cartref gofal o safon ragorol ar draws Gogledd Cymru.

## Am Erw Groes:

Mae Canolfan Deulu Erw Groes yn Brosiect 11 fflat yn Nhreffynnon sy'n cynnig llety tymor byr/ argyfwng i deuluoedd digartref. Gall y Ganolfan gartrefu teuluoedd bregus mewn un o'i 11 fflat wedi eu dodrefnu'n llawn, hunangynhwysol, sy'n cynnwys cegin, lolfa, ystafelloedd gwely ac ystafell ymolchi. Mae man parcio diogel hefyd ar gael ar y safle i Breswylwyr sy'n defnyddio'r Prosiect.

Rydym yn darparu cefnogaeth staff 7 diwrnod yr wythnos mewn adeiladau diogel a'r cyfle i dorri allan o ffordd o fyw ddigartref. Rydym yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau yn seiliedig ar lety â chymorth o safon uchel i bobl fregus ddigartref gyda phecynnau cefnogaeth wedi eu teilwrio yn ôl anghenion unigol ein cleientiaid. Ein nod yw datblygu sgiliau byw'n annibynnol pobl i'w galluogi i symud ymlaen i lety addas.

Mae Canolfan Deulu Erw Groes yn gweithredu 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos gan gynnwys penwythnosau a gwyliau banc. Mae'r swydd Derbynnydd Penwythnos yn rhan allweddol o ddarparu llety diogel i gwsmeriaid bregus ag anghenion cymhleth. Mae hon yn rôl heriol fydd yn rhoi boddhad.

## Am bwy yr ydym yn chwilio?

- Bydd gennych sgiliau pobl gwych a sgiliau cyfathrebu rhagorol.
- Bydd gennych empathi tuag at bobl ddigartref ac yn teimlo yn angerddol am fod eisiau cynnig llety diogel i rai o'r rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas.
- Bydd gennych agwedd gadarnhaol a deinamig at weithio yn yr hyn all fod yn amgylchedd heriol ar adegau.
- Byddwch yn deall beth yw darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol ac ymrwymiad i wneud hynny.

## Bydd y rota dwy wythnos parhaus yn:

- Wythnos Un - Dydd Sadwrn 8am-8pm, Dydd Sul 8am-4pm, Nos Lun yn Rhydd
- Wythnos Dau - Dydd Sadwrn yn rhydd, Dydd Sul 1.30 -8pm, Dydd Llun 7.45pm -8.15 am.

**Ar gyfer y rôl hon bydd arnoch angen gwiriad Trylwyr gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, y byddwn ni'n talu amdano.**

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw Dydd Llun 16 Hydref 2023. Gall y dyddiad hwn newid gan ddibynnu ar nifer yr ymgeiswyr.**

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon ac y byddech yn hoffi sgwrsio ymhellach, cysylltwch, rhowch alwad i Barbara Walls neu Melody Adamson ar 01352 714906.

**I ymgeisio anfonwch fynegiant o ddiddordeb yn nodi pam y byddech yn hoffi ymgeisio, gyda'ch CV os yn bosibl, at peopleteam@clwydalyn.co.uk.**

Rydym bob amser yn ymdrechu i wella ein harferion recriwtio ac efallai y byddwn yn anfon e-bost atoch yn gofyn i chi am adborth a'ch barn am y profiad recriwtio hefo ni, os byddai'n well gennych i ni beidio â chysylltu â chi, amlygwch hyn yn ystod y broses ymgeisio.